

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Stan Roberts (Llanfair) sydd bellach yn Ysbyty Bae Colwyn ond sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdano a gweddiwn ei fod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Cofiw'n hefyd am Kate Davies (Llansannan) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau cyn y Nadolig ond sydd wedi cael ei symud i'r Inffirmari erbyn hyn. Yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari hefyd y mae Morfudd Williams (Henllan) a Gwenfyl Williams (Tanyfron), fel ag y mae Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn hwy i ofal tyner ein Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Cafodd Mair Roberts (Henllan) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ychydig cyn y Nadolig, a chafodd Alun Owen (Llanefydd) hefyd lawdriniaeth yno yn dilyn anffawd. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Selwyn Davies (Southern House); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Gweddiwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.
- Llongyfarchiadau calonnog i Huw B. Davies (Saron) a Bethan ar achlysur eu dyweddiad dros y Nadolig.

I ddod

- **DIWRNOD DYNION** yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Ionawr 16eg rhwng 10.00 a 4.30 yng nghwmni Mike Adams, Llanelli. Cyfle i ddynion o bob oed (15-99!) i fwynhau cwmni ei gilydd dros air Duw, cael cinio da, ac os bydd y tywydd yn caniatáu, i fynd am dro. Cysylltwch â Choleg y Bala (01678) 520565 / colegybala@ebpcw.org.uk i archebu lle.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15-19 OED)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 29ain–31ain. Siaradwyr y penwythnos fydd Derek Rees, Owain Edwards, Jos Edwards, Rhodri Gwynant Jones, a Gwion a Sarah Dafydd. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd yno, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle mor fuan â phosibl i Goleg y Bala, ynghyd â blaendâl o £10.
- **CLWB CINIO NESAF YNG NGHEFN BERAIN** dydd Gwener, Chwefror 5ed am 12.00.
- **ARFOGI 16** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala Chwefror 26ain-28ain i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ewch i'r wefan www.souledoutcymru.net.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Ionawr 2016

Darlleniad y Dydd

Ioan 1: 35-42

(BCND tud.100 / BCN: tud.92)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a blwyddyn newydd dda i chi a'ch teulu a phob bendith i chi i'r flwyddyn hon. Mae'r Nadolig wedi dod ac wedi mynd yng ngwres anhymorol Rhagfyr! Wrth edrych yn ôl flwyddyn, ydach chi'n cofio'r rhew a'r eira? Yn ystod Oedfa bore Nadolig yng Nghapel Saron, dangosais luniau o'n taith gerdded y llynedd o gwmpas Saron a'r eira a'r rhew yn drwch ar y caeau a'r ffyrdd. Mor wahanol oedd hi eleni! Dim golwg o bluen eira yn unlle. Diolch am y croeso cynnes eto eleni. Diolch am y croeso hefyd i'r Oedfa yng Nghewn Berain ddydd Sul – y capel dan ei sang a Celfyn yn croesawu Rhodri, Gwenno a Llio yn ôl i'n plith. Gweddiwn fendith Duw ar ein hoedfaon eto heddiw gan edrych ymlaen at gael Rhodri yn agor y Gair i ni yn Oedfa'r Fro heno.

Ydach chi wedi meddwl erioed y byddech chi'n hoffi eistedd i lawr hefo Duw – cael 'oedfa' yn ei gwmni i sortio pethe – rhoi pethau mewn trefn a chael gwybod ei fod am ddelio'n rymus hefo amgylchiadau anodd? Fe fyddwn yn teimlo'n aml fod amgylchiadau yn drech na ni ac fe fyddai 'oedfa' felly hefo Duw yn beth da.

Mae'n bwysig i ni sylweddoli mai dyma y mae Duw yn ei gynnig i ni bob dydd o'i ras – oedfa hefo fo, Arglwydd y greadigaeth, y Duw Cadarn, Arglwydd y Lluoedd! Mae'n cynnig cyd-gyfarfod hefo ni i roi'r byd yn ei le, i ymresymu, i ddod i ddealltwriaeth newydd ac i gael hyd i atebion newydd. Cael Duw i ddod i 'oedfa ein hadfyd', i symud yr hyn sy'n ein poeni a'r baich sydd arnom.

Ym mhennod cyntaf proffwydoliaeth Eiseia, mae Duw yn cynnig dod i oedfa o'r fath. Dyma ei gynnig i ni:

“Yn awr, ynteu, ymresymwn â'n gilydd,” medd yr ARGWLWYDD. “Pe bai eich pechodau fel ysgarlad, fe fyddant cyn wynned â'r eira; pe baent cyn goched â phorffor, fe ânt fel gwlan.” Eiseia 1: 18

Ar ddechrau blwyddyn, dyma oedfa a fyddai'n newid popeth i ni! Beth am i ni dderbyn ei wahoddiad fel bod hon yn flwyddyn o oedfa hefo Duw!

“Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
myfi yn dlawd, heb feddu dim,
ac yntau'n rhoddi popeth im.” (CFF 302)

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eiseia 2:1-4 (BCND tud.620 / BCN: tud.566)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Anwain

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 3^{ydd} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aneurin a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 6^{ed} • Cofiwch am **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Sadwrn – 9^{fed} • Bydd **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Mawrth – 5^{ed} Cynhelir Cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn Festri Llansannan am 7.30 pryd y byddwn yn trafod amrywiol gyfieithiadau o'r Beibl a rhyfeddu at ddawn y cyfieithydd.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 3^{ydd} Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.
- Iau – 7^{fed} Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Saron am 7.00 gyda'r Parch. Eifion Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 3^{ydd} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00.
- Llun – 4^{ydd} Cynhelir Cyfarfod Gweddi y Chwiorydd yng Nghefn Berain am 2.00. Croeso i bawb.
- Mercher – 6^{ed} Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Llanefydd am 7.00 gyda'r Parch. Dewi Tudur yn pregethu.
- Iau – 7^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 7.00.
- Sul nesaf – 10^{fed} Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.